BWRDD Diogelu Gogledd cymru

Camddefnyddio Sylweddau gan Rieni

Mae camddefnyddio sylweddau gan rieni yn cyfeirio at gam-drin cyffuriau a/neu alcohol gan rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc. Mae camddefnyddio sylweddau yn cyfeirio at gyffuriau anghyfreithlon, alcohol, cyffuriau presgripsiwn a thoddyddion. Er bod y triniaethau'n gallu bod yn wahanol, mae'r canlyniadau i'r plentyn/plant yn eithaf tebyg.

Gall rhieni sy'n camddefnyddio cyffuriau neu alcohol effeithio ar blant mewn sawl ffordd, yn cynnwys: camddefnyddio sylweddau yn ystod beichiogrwydd yn amharu ar ddatblygiad y plentyn heb ei eni; y risg o anaf corfforol i blentyn sy'n cysgu wrth ymyl oedolyn, yn digwydd o ganlyniad i'r oedolyn yn gorwedd dros neu yn erbyn y plentyn; y risg o gyffuriau ac offer cyffuriau yn cael eu gadael o gwmpas y lle; sgiliau gofalu ymarferol rhiant yn cael eu lleihau gan gamddefnyddio sylweddau; gall rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau ei chael hi'n anodd blaenoriaethu anghenion y plant dros anghenion eu hunain; efallai bydd plant yn cael eu gorfodi i ymgymryd â rôl gofalu.

Mae yna nifer o achosion wedi bod yng Ngogledd Cymru lle mae camddefnyddio cyffuriau neu alcohol gan rieni wedi effeithio ar ofal babi/plentyn neu berson ifanc.

https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru